OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 588

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013

**Sylwadau anonest er mwyn cael gostyngiad**

**9.**—(1) Bydd person (P) yn euog o drosedd os yw P, at y diben o gael gostyngiad o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, boed hynny ar gyfer P ei hunan neu berson arall, yn anonest—

(a) yn gwneud datganiad neu sylw ffug; neu

(b) yn darparu, neu'n peri neu'n caniatáu darparu, unrhyw ddogfen neu wybodaeth sy'n ffug mewn manylyn o bwys.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan y rheoliad hwn yn atebol—

(a) yn dilyn collfarn ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu ei garcharu am gyfnod na fydd yn hwy na 6 mis, neu'r ddau; neu

(b) yn dilyn ei gollfarnu ar dditiad, i'w garcharu am gyfnod na fydd yn hwy na saith mlynedd, neu i'w ddirwyo, neu'r ddau.